Pam defnyddio cynghorydd ariannol?

Mae yna rai penderfyniadau ariannol y gallwch eu gwneud eich hun, ond mae'r cyfnod sy'n nesáu at eich ymddeoliad pan fyddwch angen cael mynediad at eich cronfa bensiwn yn un o adegau pwysicaf eich bywyd.

Mae digonedd o wybodaeth rhad ac am ddim ar gael ynglŷn ag ymddeoliad ond os hoffech gael mwy o gymorth ymarferol yna byddwch angen cyngor ariannol gydag argymhelliad personol gan gynghorydd ariannol rheoledig. Rhaid i gynghorwyr rheoledig fod yn gymwys a pharchu rheolau llym a osodwyd gan reoleiddiwr y Deyrnas Unedig, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Rhaid i unrhyw gynnyrch a argymhellir gan gynghorwyr fod yn addas ar eich cyfer ac os aiff unrhyw beth o'i le mae'r gwasanaeth cwynion a'r cynllun iawndal ffurfiol yno i'ch diogelu yn rhad ac am ddim.

Mae cynghorwyr ariannol yn arbenigwyr yn eu maes ac mae ganddynt fynediad at ystod eang o ddewisiadau. Yn union fel unrhyw bobl broffesiynol eraill, mae cynghorwyr ariannol proffesiynol yn codi ffi am eu gwasanaeth ond nid cymaint â'r disgwyl efallai. Bydd cynghorwyr bob amser yn rhoi amcanbris i chi cyn i chi ymrwymo.

Mae pob un o'r cynghorwyr sydd ar Gyfeirlyfr y Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi eu rheoleiddio. Bydd angen i chi ateb ychydig o gwestiynau i ddechrau er mwyn eich paru ag un o'r cynghorwyr a fydd yn rhoi'r math o gyngor a ddymunwch, yn y modd gorau i chi, un ai ar-lein, ar y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Efallai mai dod o hyd i gynghorydd ariannol da fydd y penderfyniad ariannol gorau a wnewch yn eich bywyd.